**BWRDEISTREF SIROL BLAENAU GWENT**

**ADRODDIAD I:** **THE CHAIR AND MEMBERS OF THE PWYLLGOR LLYWODRAETHIANT AC ARCHWILIO**

**PWNC:** **PWYLLGOR LLYWODRAETHIANT AC ARCHWILIO - DYDD MAWRTH, 7 RHAGFYR 2021 DYDD MAWRTH, 7 RHAGFYR 2021**

**ADRODDIAD GAN:**

---

PRESENNOL: T. EDWARDS (CADEIRYDD)

Cynghorwyr: S. Healy (Is-gadeirydd)
P. Baldwin
D. Davies
D. Hancock
J. Hill
W. Hodgins
J. Millard
M. Moore
J. C. Morgan
K. Rowson
B. Summers
H. Trollope
L. Winnett
M. Veale

A:

| **EITEM** | **PWNC** | **GWAITH** |
|---|---|---|
| **No. 1** | **CYFIEITHU AR Y PRYD**<br><br>Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. | |
| **No. 2** | **YMDDIHEURIADAU** | |

| | | |
|---|---|---|
| | Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr S. Thomas a J. Holt. | |
| **No. 3** | **<u>DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU</u>**<br><br>Datganodd y Cynghorydd B. Summers fuddiant yn yr eitem ddilynol:<br><br>Eitem Rhif 6 – Ymateb i Ymchwiliad Archwilio Cymru i'r rhai sy'n gyfrifol am Lywodraethiant a Rheoli *(Silent Valley Waste Services)* | |
| **No. 4** | **<u>PWYLLGOR LLYWODRAETHIANT AC ARCHWILIO</u>**<br><br>Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 2 Tachwedd 2021.<br><br>Dywedwyd y dylid newid B. Baldwin i P. Baldwin ar y rhestr presenoldeb ar dudalen y cofnodion.<br><br>PENDERFYNWYD, yn amodol ar yr uchod, i gadarnhau'r cofnodion. | |
| **No. 5** | **<u>DALEN WEITHREDU – 2 TACHWEDD 2021</u>**<br><br>Nid oedd unrhyw gamau gweithredu yn deillio o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Tachwedd 2021. | |
| **No. 6** | **<u>YMATEB I YMCHWILIAD ARCHWILIO CYMRU I'R RHAI SY'N GYFRIFOL AM LYWODRAETHIANT A RHEOLAETH</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Archwilio a Risg.<br><br>Cyflwynodd y Rheolwr Archwilio a Risg yr adroddiad sy'n amlinellu ymateb y rheolwyr i ymholiadau Archwilio Cymru, a roddir yn Atodiad A, a'r ymateb a roddwyd ar ran y Pwyllgor fel y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethiant.<br><br>Dywedodd y Swyddog fod camgymeriad yn Opsiwn 1 yr adroddiad a ddylai ddarllen:<br><br>'Mae'r Pwyllgor yn nodi'r ymateb a atodir gan y Rheolwyr i ymholiad Archwilio Cymru ac yn cymeradwyo ymateb y Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio fel y'i darparwyd gan Gadeirydd y Pwyllgor.' | |

| | | |
|---|---|---|
| | Dilynodd trafodaeth fer pan eglurodd Swyddogion bwyntiau a godwyd gan Aelod.<br><br>PENDERFYNWYD, yn amodol ar yr uchod, i dderbyn yr adroddiad a bod y Pwyllgor yn nodi'r ymateb a atodir gan y Rheolwyr i ymholiad Archwilio Cymru ac yn cymeradwyo ymateb y Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio fel y'i darparwyd gan Gadeirydd y Pwyllgor (Opsiwn 1). | |
| **No. 7** | **<u>GWYBODAETH CWYNION AR GYFER CHWARTER 1 A CHWARTER 2 - 2021/2022</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Pennaeth Cydymffurfiaeth Cyfreithiol a Chorfforaethol.<br><br>Cyflwynodd y Pennaeth Cydymffurfiaeth Cyfreithiol a Chorfforaethol wybodaeth perfformiad y Cyngor yn ymwneud â'r ymchwiliadau i Gam 1 a Cham 2 Cwynion Corfforaethol a dderbyniwyd ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2021 – 30 Medi 2021.<br><br>Esboniodd y Swyddog fod Cam 1 a Cham 2 yn cyfeirio at brosesau mewnol y Cyngor ar gyfer adolygu cwynion. Dywedodd y Swyddog, pe byddai methiant i sicrhau datrysiad drwy brosesau mewnol y Cyngor, y gellid esgyn cwyn i Gam 3 a'i chyfeirio at yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus i'w hystyried.<br><br>Fel yr adroddwyd yn flaenorol mae gan y Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio yn awr swyddogaethau ychwanegol i gynnwys rôl mewn trosolwg ar gyfer cwynion a phwerau statudol newydd i:<br><br>• Adolygu ac asesu gallu'r Awdurdod i drin cwynion yn effeithlon; a<br>• Gwneud adroddiadau ac argymhellion yng nghyswllt gallu'r Awdurdod i drin cwynion yn effeithlon.<br><br>Mae'n ofynnol i'r Cyngor roi data cwynion i'r Awdurdod Safonau Cwynion (CSA) yn chwarterol a rhoi adroddiad i'r Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio am y nifer a mathau o gwynion a dderbyniwyd a'u canlyniadau. Roedd y Pwyllgor wedi cytuno ym mis Mehefin 2021 y cyflwynid yr adroddiad hwn i'r Pwyllgor ddwywaith y flwyddyn.<br><br>Aeth y Swyddog wedyn drwy'r wybodaeth perfformiad a fanylir yn Atodiad 1 yr adroddiad. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Soniodd Aelod fod nifer uwch o gwynion yng nghyswllt gwastraff , sbwriel ffyrdd a chludiant a gofynnodd os y dylai hyn gael ei adrodd i'r Pwyllgor Craffu perthnasol i'w ystyried.<br><br>Dywedodd y Swyddog fod y nifer uwch o gwynion o fewn y meysydd hynny i'w ddisgwyl oherwydd natur y gwasanaeth. Cadarnhaodd y caiff y data ei ddadansoddi i lywio gwelliannau gwasanaeth ond hefyd i ddynodi unrhyw dueddiadau neu faterion y gall fod angen eu hystyried ymhellach gan y Pwyllgor Craffu perthnasol a'r Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio.<br><br>Gofynnodd Aelod hefyd os oes data cymharol ar gael yng nghyswllt cwynion a dderbyniwyd mewn awdurdodau lleol eraill, a gofynnodd hefyd am eglurhad os yw'r ffigurau yn cynnwys cwynion cod ymddygiad.<br><br>Mewn ymateb cadarnhaodd y Swyddog fod y ffigurau yn ymwneud â chwynion gwasanaeth yn unig. Cyflwynir data yng nghyswllt cwynion cod ymddygiad yn flynyddol i'r Pwyllgor Safonau a'r Cyngor. Yng nghyswllt data cymharol, roedd Adroddiad Blynyddol yr Ombwdsmon a gyflwynwyd i gyfarfod diwethaf y Pwyllgor yn cynnwys data cymharol ar draws pob cyngor yng Nghymru ond nid yng nghyswllt meysydd gwasanaeth penodol. Roedd gan Flaenau Gwent nifer cymharol isel o gwynion o gymharu ag awdurdodau lleol a chaiff hyn ei adlewyrchu yn adroddiad yr Ombwdsmon. Dywedodd y Swyddog y gellid cael data gan awdurdodau lleol ond dywedodd y byddai'n rhaid addasu hyn i adlewyrchu maint ac anghenion pob awdurdod lleol.<br><br>Mewn ymateb i gwestiwn pellach, cadarnhaodd y Swyddog fod y broses ar gyfer gwneud cwynion ar wefan y Cyngor. Mae gan bob Adran ei Swyddog Cwynion ei hunan ac maent yn y broses o dderbyn hyfforddiant yn nhermau dynodi cwynion a sicrhau y cânt eu cofnodi mewn modd priodol.<br><br>Cyfeiriodd Aelod at adran 5.1 yr adroddiad sy'n dweud y gall y Cyngor ddyfarnu iawndal mewn rhai amgylchiadau a gofynnodd lle byddid yn cofnodi'r wybodaeth hon.<br><br>Dywedodd y Swyddog mai yn anaml iawn y telir iawndal ond gallai'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus ei ddyfarnu yng nghyswllt cwynion Cam 3. Dywedodd y Swyddog y byddai'n ymchwilio os y cofnodir yr wybodaeth hon. | |

Cyfeiriodd Aelod arall at y ddwy gŵyn gwasanaethau plant a gadarnhawyd a gofynnodd os y dylai'r rhain gael eu hadolygu yn arbennig yng nghyswllt digwyddiadau diweddar a adroddwyd yn y wasg.

Mewn ymateb dywedodd y Swyddog na fedrai fynd i mewn i fanylion y cwynion. Cadarnhaodd fod gan Gwasanaethau Cymdeithasol eu polisi a'u gweithdrefnau cwynion eu hun yn gysylltiedig â'r gweithdrefnau corfforaethol, a'u bod yn effeithol tu hwnt wrth sicrhau y caiff cwynion eu hadolygu a'u hymchwilio'n drwyadl. Fel sicrwydd ychwanegol ar gyfrer Aelodau, dywedodd y Swyddog y byddai'n cydlynu gyda'r Pennaeth Gwasanaethau Plant ynghylch trosolwg o weithdrefnau i ddelio gyda chwynion gwasanaethau cymdeithasol.

Dilynodd trafodaeth am ymgyfraniad Aelodau yn y broses pan mae aelod o'r cyhoedd yn cysylltu â nhw parthed cwyn gyfredol, ac os oes gweithdrefnau ar waith i sicrhau na chaiff cwynion eu dyblygu.

Dywedodd y Swyddog fod Aelodau yn aml yn ganolwyr pan nad yw aelodau'r cyhoedd yn fodlon gydag ymateb neilltuol. Fodd bynnag, mae'r broses am wneud cwyn ar wefan y Cyngor a hefyd sut i esgyn cwyn os teimlent fod yr ymateb a gawsant yn anfoddhaol. Yn nhermau ymgyfraniad Aelodau, cadarnhaodd y gall Aelodau gynorthwyo etholwyr gyda'r broses gwynion. Mae cyfathrebu gyda'r cyhoedd yn bwysig i sicrhau fod ganddynt yr wybodaeth maent ei hangen i wneud cwyn ac mae gwahanol sianeli ar gael i gael mynediad i'r wybodaeth honno.

Dywedodd Aelod y byddai cronfa ddata gwynion ganolog yn fanteisiol i Aelodau ei hasesu er mwyn rhoi diweddariad i aelodau'r cynnydd ar hynt cwyn. Dywedodd y Swyddog y gellid ymchwilio hyn.

Cyfeiriodd Aelod at drafodaethau blaenorol yn ymwneud ag iawndal ac awgrymodd y dylid adrodd dyfarniadau dros £500 i'r Pwyllgor wrth symud ymlaen.

Mewn ymateb esboniodd y Swyddog fod cwynion yn erbyn y Cyngor yn wahanol i'r broses gyfreitha a hawliadau yswiriant ac nad ydynt yn ffurfio rhan o'r data o fewn yr adroddiad hwn.

Cadarnhaodd y Rheolwr Archwilio a Risg fod systemau ar gyfer

| | | |
|---|---|---|
| | adrodd ffigurau yng nghyswllt hawliadau yswiriant yn cael eu hystyried.<br><br>Dilynodd trafodaeth fer arall pan esboniodd y Swyddog fod rhai o'r mathau o faterion a godwyd gan Aelodau yn dod tu allan i'r fframwaith ac mai un o'r heriau yw sicrhau y caiff y materion hynny ei casglu a'u hesgyn mewn modd priodol.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a bod y Pwyllgor yn ceisio eglurhad pellach ar feysydd o fewn yr adroddiad a thynnodd sylw at feysydd o ddiddordeb neu gonsyrn sydd angen eu hystyried wrth fonitro ac adrodd cwynion yn y dyfodol. (Opsiwn 2) | |
| **No. 8** | **<u>TYSTYSGRIF CYDYMFFURFIAETH ARCHWILIO CYMRU AR GYFER ARCHWILIO ASESIAD PERFFORMIAD 2020-21 CYNGOR BWRDEISTREF SIROL BLAENAU GWENT</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Gwasanaeth Perfformiad a Democrataidd.<br><br>Cyflwynodd y Rheolwr Archwilio a Risg Dystysgrif Cydymffurfiaeth Archwilio Cymru yn dilyn archwiliad o Asesiad Perfformiad 2020-21 y Cyngor (rhoddir yn Atodiad 1).<br><br>Mynegodd Aelod bryder am yr oedi gydag adroddiad Archwilio Cymru ar Silent Valley.<br><br>Dywedodd y Rheolwr Archwilio a Risg fod hwn yn fater gwahanol i'r adroddiad hwn ond cadarnhaol y caiff yr adroddiad ar Silent Valley ei adrodd i'r Pwyllgor maes o law.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a bod y Pwyllgor yn nodi'r dystysgrif cydymffurfiaeth a ddyddiwyd Tachwedd 2021. | |